

# Robotau, deallusrwydd artiffisial a realiti rhithwir: Taith ac arddangosiadau

**Dr Frédéric Labrosse**: Uwch Ddarlithydd, **Dr Patricia Shaw**: Darlithydd, **Dr Helen Miles**: Darlithydd Cyswllt, a **Dr Marek Ososinski**: Ymchwilydd Cyswllt, Adran Cyfrifiadureg, Prifysgol Aberystwyth

Bydd y daith yn cwmpasu pedwar o'n cyfleusterau presennol, a thrafodir yr ymchwil a wneir ym mhob un:

## Y Labordy Realiti Rhithwir

Byddwn yn ymweld â'n Labordy Realiti Rhithwir newydd lle ceir y cyfarpar realiti rhithwir ymgollol diweddaraf a fydd yn eich cludo drwy ofod ac amser i leoedd y byddai'n anodd i chi fynd iddyn nhw mewn gwirionedd.

## Y Labordy Systemau Deallus

Mae'r Labordy Systemau Deallus yn gartref i amrywiaeth o robotau dan do. Yn benodol, ar y daith hon, cyflwynir y robot dynolffurf iCub a'r robot biomimetig MIRO a ddyluniwyd ar gyfer cymwysiadau gofal cymdeithasol. Trafodir datblygiad a chymwysiadau posibl y robotau hyn yn y dyfodol.



## Y Labordy Roboteg Faes a Chymhwysol

Mae'r labordy hwn yn gartref i robotau a ddefnyddir mewn amgylcheddau awyr agored go iawn gyda chwsmeriaid go iawn. Mae'r cymwysiadau'n amrywio o sganio chwareli segur yng Nghymru i wneud modelau 3D o welyau afonydd yn Seland Newydd a rhewlifoedd ar yr Ynys Las. Caiff rhai o'r robotau eu dangos a'u trafod, a bydd modd gweld un neu ddwy o ffilmiau.



## Y Llwyfan Golau

Cromen geodesig gydag arae o gamerâu a LEDau yw'r Llwyfan Golau (Lightstage). Rhoddir gwrthrych yn y canol lle gellir ei oleuo a thynnu ei lun o lawer o wahanol gyfeiriadau. Gallwn ddefnyddio'r ffotograffau hyn i gynhyrchu ailgreadau 3D hynod fanwl gywir. Dangoswn ble rydym ni arni gyda'r gwaith adeiladu.